



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Trapiau Dal Coesau a Mewnforion Crwyn (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	22 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Trapiau Dal Coesau a Mewnforion Crwyn (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 3254/91
- Penderfyniad y Cyngor 97/602
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 35/97

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

O ran Trapiau Dal Coesau a Mewnforion Crwyn, bydd y diwygiadau sy'n ymwneud â gweithredadwyedd yn ymdrin â rhai materion datganoledig (gwaharddiad ar ddefnyddio trapiau dal coesau) a rhai materion a gedwir yn ôl (gwaharddiad ar fewnforio crwyn).

Diben y diwygiadau

Diben yr OS hwn (y weithdrefn negyddol), i'w gyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), fydd gweithredu'r addasiadau hynny sy'n angenrheidiol ar draws y DU er mwyn i ddeddfwriaeth yr UE barhau i weithredu'n effeithiol mewn perthynas â gwahardd trapiau dal coesau a chyflwyno i'r DU grwyn rhywogaethau penodol o anifeiliaid gwyllt, a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu ohonynt, sy'n tarddu o wledydd sy'n eu dal drwy gyfrwng trapiau dal coesau neu ddulliau trapio nad ydynt yn bodloni safonau trapio rhyngwladol heb greulondeb.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-leghold-trap-and-pelt-imports-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y

diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.